Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: **GWYNGALCHU ARIAN**

Datganiad Polisi

1) Gwyngalchu arian yw'r broses lle caiff arian neu asedau eraill a gafwyd drwy droseddu ei gyfnewid am arian neu asedau glân heb gysylltiad amlwg â gwreiddiau troseddol yr arian. Mae trefn y Deyrnas Unedig yn erbyn gwyngalchu arian wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd a chyflwynwyd yr elfennau diweddaraf ar 1 Ionawr 2010. I helpu diogelu cymdeithasau tai rhag effeithiau gwyngalchu arian, cyhoeddodd y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol ganllawiau ar wyngalchu arian ym Mai 2010 mewn cysylltiad gyda Tait Walker.

2) Mae'r rheoliadau Gwyngalchu Arian yn cyfeirio at weithgareddau a gaiff eu 'rheoleiddio'. Mae'r rheoliadau yn eang, fodd bynnag, ar gyfer cymdeithasau tai byddai hyn yn cynnwys unrhyw weithgaredd a wneir i gael morgais/benthyciad, neu unrhyw weithgaredd gwerthu tai.

3) Mewn termau cyfreithiol yn llwyr, os nad yw'r Gymdeithas yn benthyca arian neu'n gweithredu fel asiant wrth werthu anheddau, nid ydym yn dod o fewn y rheoliadau Gwyngalchu Arian. Fodd bynnag, yr arweiniad gan y Ffederasiwn yw y dylai Cymdeithasau ddilyn y rheoliadau Gwyngalchu Arian os ydynt yn ymwneud ag unrhyw agwedd o werthu annedd.

4) Mae'r polisi hwn felly yn weithredol ar gyfer pob gweithgaredd gwerthu eiddo.

5) Bydd y Gymdeithas yn :
   a) Dilyn canllawiau'r Ffederasiwn ar wyngalchu arian.
   b) Cofrestru gyda'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT).
   c) Penodi Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian a Dirprwy.
   d) Sefydlu gwiriadau, dulliau rheoli a gweithdrefnau i ragweld ac atal gwyngalchu arian.
   e) Hyfforddi'r holl staff sy'n gwerthu eiddo ar y gweithdrefnau a'r gyfraith ar wyngalchu arian.
   f) Rhoi gweithdrefnau ar waith i wirio adnabyddiaeth cwsmeriaid.
   g) Cadw cofnodion ar adnabyddiaeth y cwsmer a'r trafodion gwerthu am chwe blynedd.

Meysydd Perfformiad Allweddol

A. Y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol (mewn cysylltiad gyda'r tîm Rheolaeth Weithredol, yn sefydlu'r gweithdrefnau a'r gofynion hyfforddiant priodol yn ymwneud â gwyngalchu arian ar gyfer pawb sy'n ymwneud gyda gwerthu eiddo.

B. Y Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad gyda'r Tîm Rheolaeth Weithredol a'r Grŵp Gweithredwyr, yn asesu'r risgiau yn gysylltiedig â gwyngalchu arian ac yn cynnwys manylion fel bo angen ar y map risg.

Diben:	Sicrhau y caiff y risgiau y defnyddir y Gymdeithas ar gyfer gwyngalchu arian eu gostwng i'r graddau isaf posibl.	
Cyfeirnod:		
Dyddiad Cyhoeddi:	Ionawr 2011	
Dyddiad Adolygu:	Adolygu bob tair blynedd neu pan ddaw deddfwriaeth gysylltiedig i rym. Ionawr 2014.	
Adrannau/Unedau yr effeithir arnynt:	Datblygu, Cyllid	
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Rheoli 26 Ionawr 2011	
Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol	
Cydymffurfiaeth Statudol	Deddf Trafodion Troseddu 2002 (Rhan 7) Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007	
Ffactorau Risg Strategol		
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	D/B
	A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Ni ddisgwylir y bydd effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion
	A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff*	Amcan y polisi yw sicrhau y caiff risgiau'n

	anghenion tenantiaid eu diwallu?	gysylltiedig â gwyngalchu arian eu gostwng i'r eithaf er mwyn sicrhau y caiff anheddau eu gwerthu i brynwyr dilys.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Ni ragwelir y bydd y polisi hwn yn effeithio ar hawliau ac oblygiadau tenantiaid.
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Ar hyn o bryd, ni ymgynghorwyd â thenantiaid ar y polisi yma.